| | |
|---|---|
| Cyfarfod | **Y CYNGOR** |
| Dyddiad | 21, Mehefin, 2012. |
| Pwnc | Pwyllgorau Ardal. |
| Awdur | Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Gofal Cwsmer. |

**Cefndir**

1. Cyflwynir yr adroddiad yma yn dilyn penderfyniad y Cyngor ar 17, Mai, 2012 i gael trafodaeth bellach ynglŷn â sefydlu pwyllgorau ardal.

2. Cychwynnwyd trafodaeth ynglŷn â dyfodol y pwyllgorau ardal ochr yn ochr â thrafodaeth ar sefydlu fforymau ardal fel rhan o'r gwaith grymuso cymunedau gyda'r bwriad o rymuso'r aelod lleol, gwella'r ymgysylltiad hefo cymunedau, cael gwell canlyniadau i'r ardal a gwneud gwell defnydd o adnoddau aelodau a swyddogion.

3. Wrth sefydlu'r Pwyllgor Cynllunio Canolog bu gostyngiad yn nifer yr eitemau gerbron y pwyllgorau ardal ac erbyn hyn mae'r newid i drefn Cabinet yn golygu bod o nifer o faterion fu gynt yn mynd i bwyllgorau a rdal bellach yn gyfrifoldeb i'r Cabinet.

4. Bydd angen i'r Cyngor ddod i benderfyniad a yw am sefydlu pwyllgorau ardal yn y gyfundrefn newydd neu beidio, ac os eu sefydlu, pa gylch gorchwyl i'w roi iddynt, gan gofio fod rhai materion bellach yn dod yn gyfrifoldeb i'r Cabinet.

**Ystyriaethau**

5. Mae nifer o ystyriaethau sy'n briodol i'r Cyngor rhoi sylw iddynt wrth drafod y mater.

6. <u>Y drafodaeth ar fforymau ardal</u> - Os yw'n ddymuniad gan y Cyngor ystyried dyheadau a dymuniadau'r gwahanol ardaloedd wrth bennu blaenoriaethau, mae angen ffordd o sefydlu'r dyheadau a dymuniadau rheini a gallasai sefydlu fforymau ar seiliau daearyddol llai na'r pwyllgorau ardal ac wedi eu cyfansoddi heb fod ar sail pwyllgor ffurfiol fod yn fodd o gyflawni hynny.

7. <u>Pwrpas a diben pwyllgorau ardal</u> - Er mwyn adnabod beth fyddai llwyth gwaith pwyllgor ardal pe'i sefydlid, edrychwyd yn fanwl ar yr hyn sydd wedi ei drafod yn y pwyllgorau ardal dros y ddwy flynedd diwethaf gan adnabod y materion hynny na fydd modd iddynt fynd i bwyllgor ardal bellach a natur yr eitemau fyddai ar ôl.

8. O'r materion a drafodwyd, gwelwyd fod y mwyafrif, sef 58% yn adroddiadau er gwybodaeth yn unig, h.y. adroddiadau blynyddol, rhaglenni gwaith a chynlluniau, cofnodion is-bwyllgorau, a.y.b.

9. Roedd 41% o'r materion gerbron y pwyllgorau ardal yn faterion oedd angen penderfyniad arnynt. Mae'r rhain yn rhannu i 29% sydd bellach yn faterion i'r Cabinet a 12% yn faterion sydd naill ai yn mynd am benderfyniad i'r Cyngor llawn (e.e. adolygu ffiniau rhanbarthau etholiadol) neu i Bwyllgor Cynllunio (materion llwybrau a gorchmynion).

10. Adnabuwyd un mater oedd yn drafodaeth ar fater lleol, sef cau Uned Meirion, Ysbyty Dolgellau, er y bu hwn hefyd yn destun Rhybudd o Gynnig i'r Cyngor llawn.

11. Gwelir felly mai prif ffocws y pwyllgorau dros y ddwy flynedd diwethaf oedd derbyn gwybodaeth. Er eu bod wedi derbyn nifer o faterion i'w trafod a'u penderfynu mae'r newid i drefniadau Cabinet yn golygu na fydd ganddynt o hyn allan rôl allweddol ym mhroses benderfynu'r Cyngor.

12. Defnydd effeithiol o adnoddau -Yn aml iawn, trafodwyd yr un materion yng nghyfarfodydd y tri phwyllgor ardal, e.e. adroddiadau blynyddol gwasanaethau, sydd yn ddefnydd aneffeithiol o ran amser a chostau swyddogion ac aelodau.

13. Y newid i drefn cabinet - Gan fod y cyfrifoldeb am gyflawni bellach yn cael ei osod yn glir yn nwylo aelodau'r Cabinet, mae angen sefydlu trefniadau cadarn i'w herio a'u dal i gyfrif. Gwneir hyn drwy'r pwyllgorau craffu. Mae'n deg cwestiynu felly a oes diben mwyach i alw Pennaeth Adran gerbron pwyllgor ardal i roi cyfrif am ei g/waith mewn adroddiad blynyddol pan yw'r prif gyfrifoldeb gan aelodau'r Cabinet.

14. Trosglwyddo gwybodaeth **-** Mae aelodau mainc gefn yn mynegi dyhead clir i gael rhagor o wybodaeth ar

a) faterion o fewn eu wardiau;

b) materion am wasanaethau'r Cyngor yn gyffredinol.

15. Mae bwriad gan y Cabinet i sefydlu cymorthfeydd lle gall aelodau mainc gefn drafod materion sydd o bryder iddynt o fewn eu wardiau a holi yn gyffredinol am y gwasanaethau. Yn ogystal, pan fydd y porth gwybodaeth wedi ei sefydlu, bydd modd trefnu fod adroddiadau blynyddol gwasanaethau yn cael eu rhoi arno at ddefnydd pob aelod a gellir hefyd ystyried anfon rhestr o ddigwyddiadau lleol i aelodau lleol.

**Y ffordd ymlaen.**

16. Gan fod nifer o'r cynigion (e.e. fforymau ardal, cymorthfeydd, y porth gwybodaeth) heb eto eu datblygu'n llawn mae'n anodd bod yn sicr y bydd dyheadau'r aelodau yn cael eu cwrdd.

17. Argymhellir felly fod yr Aelod Cabinet yn sefydlu gweithgor trawsbleidiol, hefo cynrychiolaeth o bob ardal, i ddatblygu'r syniadau a dod â chynigion pendant yn ôl gerbron y Cyngor fis Hydref.

18. Yn y cyfamser, argymhellir sefydlu pwyllgorau ardal ar gyfer Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, heb hawliau gweithredu, ac ar sail dros dro gyda'r mater i'w ystyried eto yng Nghyngor mis Hydref.

**ARGYMHELLIAD.**

a) Sefydlu gweithgor trawsbleidiol gyda chynrychiolaeth o bob ardal i ddod â chynigion pendant gerbron am drefn fydd yn cwrdd â gofynion aelodau.

b) Sefydlu pwyllgorau ardal ar gyfer pob un o ardaloedd Arfon, Dwyfor a Meirionnydd, heb hawliau gweithredu, am gyfnod penodol tan Cyngor mis Hydref.

c) Trafod y mater eto yng Nghyngor mis Hydref.